Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Glyn Ceiriog
**Canalfan Ceiriog Centre**
**New Road**
**Glyn Ceiriog**
**LL20 7HE**

**Dyddiad yr arolygiad Gorffennaf 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Glyn Ceiriog yn leoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi`i leoli yng Nghanolfan Ceiriog, Glyn Ceiriog.  Mae hyn yn bentref gwledig yn Nyffryn Ceiriog tua 6 milltir o'r Waun yng Ngogledd Cymru.

Mae `r Cylch wedi ei gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn uchafswm o 17 o blant mewn unrhyw sesiwn.  Mae`r plant yn mynychu o ddwy flwydd oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ar hyn o bryd mae 18 o blant ar y gofrestr gyda wyth ohonynt yn dair oed.  Mae pob un o`r plant tair oed yn cael eu hariannu.

Mae'r lleoliad yn cynnig pedair sesiwn o ddwy awr a hanner yr wythnos yn ystod y tymor ysgol.  Mae hyn yn y prynhawn ar Ddydd Llun a Dydd Iau (12.30 - 3 y.p.) ac ar fore Dydd Mercher a Dydd Gwener (9 y.b. – 11.30 y.b.)

Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn cael ei siarad fel prif iaith, er bod rhai yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith ac o gefndir ethnig.  Mae ychydig o blant wedi eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod parhaol o staff a dau aelod o staff rhan-amser yn cefnogi`r plant a nodwyd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae`r ddau aelod o staff parhaol wedi`u penodi`n gymharol ddiweddar - mae`r penodiad diweddaraf dim ond yn ei swydd ers Pasg 2014 a’r llall ers 2009.  Mae'r ddwy bellach yn rhannu rolau`r arweinyddiaeth.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC ym mis Awst 2012.  Nid yw wedi ei arolygu gan Estyn o`r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r rhan fwyaf o`r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae`r plant yn hapus, yn teimlo`n ddiogel ac yn ymgartrefu`n gyflym;
- mae safonau`r gofal, cymorth ac arweiniad yn gyson dda;
- mae safonau lles y plant yn uchel ac mae`r holl blant yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch;
- mae gan lawer o blant fedrau gwrando da ac yn canu caneuon Cymreig gyda brwdfrydedd;
- mae`r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth werthfawr o brofiadau dysgu a gweithgareddau ar gyfer y plant;
- mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw`r asesu`n cael ei ddefnyddio`n ddigonol i ddarparu darlun clir o gynnydd pob plentyn ac i ddylanwadu ar y cynllunio.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r ymarferwyr yn cyd-weithio`n dda iawn ac mae ganddynt ffocws clir ar ddarparu`r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant;
- mae gan y lleoliad hanes da o welliant;
- mae`r ymarferwyr yn hunan-feirniadol ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor ar gyfer gwella`r ddarpariaeth;
- mae`r rhieni a`r pwyllgor rheoli`n gefnogol iawn;
- mae swyddog cefnogi`r awdurdod lleol yn effeithiol iawn ac yn darparu cyngor gwerthfawr ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

Fodd bynnag,

- mae`r cynllunio ar gyfer gwella mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 ddatblygu system o asesu sy`n nodi cynnydd y plant yn glir.

A2 defnyddio gwybodaeth asesu er mwyn sicrhau bod y tasgau yn cyfateb â gallu`r plant.

A3 ymestyn y gweithdrefnau hunanarfarnu er mwyn cynnwys pob agwedd o waith y lleoliad a chreu cynllun datblygu manwl ar gyfer gwella.

A4 ymestyn y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i`r plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ac yn cyflawni'n dda. Maen nhw`n dangos lefelau uchel o wybodaeth a dealltwriaeth ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu yn unol â'u gallu a chyfnod eu datblygiad.

Mae gan lawer o blant fedrau gwrando da ac maen nhw`n gantorion brwdfrydig o ganeuon a hwiangerddi Cymraeg. Maen nhw`n arbennig o hoff o berfformio caneuon actol ac mae hyn yn effeithiol wrth ddatblygu eu hiaith. Mae`r mwyafrif o`r plant yn dod o hyd i'w henwau ar fatiau yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o blant yn trin offer ysgrifennu a brwsys yn gywir, fel wrth sgriblo ar fwrdd sialc. Maen nhw`n dechrau sylweddoli rhai o swyddogaethau ysgrifennu, fel labelu potiau sy'n cynnwys hadau maen nhw wedi eu plannu.

Mae'r plant yn siarad yn hyderus gydag oedolion a gyda`i gilydd, ond ychydig iawn o blant sy`n siarad Cymraeg yn annibynnol neu'n ddigymell yn eu chwarae. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth y plant o'r iaith yn datblygu'n dda ac mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau a chyfarwyddiadau maen nhw`n clywed gan oedolion. Mae ychydig o blant yn rhugl yn yr iaith ac mae hyn yn adlewyrchu eu cefndir yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau rhif da ac yn adrodd rhifau hyd at 10 a rhai tu hwnt. Mae llawer o blant yn enwi siapiau syml dau-ddimensiwn yn y Gymraeg ac yn dod o hyd i siapiau tebyg tu allan yn yr iard chwarae. Mae eu hiaith fathemategol yn datblygu i gydnabod, er enghraifft, "mawr a bach," "yn wag ac yn llawn".

Mae bron yr holl blant wedi datblygu medrau corfforol da. Maen nhw`n pedlo a thrafod beiciau tair olwyn yn fedrus ac yn gyflym iawn! Mae llawer o blant yn defnyddio offer bach gan ddangos rheolaeth dda ac yn dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser, fel wrth wneud eu cebabs ffrwythau. Mae eu gwybodaeth o'r byd o'u cwmpas yn datblygu'n dda trwy ymweliadau â'r ardal fywyd gwyllt sydd wedi`u creu yn ddiweddar ac ymweliadau â'r parc lleol.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn dod i mewn i`r lleoliad yn hapus ac yn setlo`n gyflym i`r drefn sydd wedi`i sefydlu`n dda. Mae'r mwyafrif yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn gymwynasgar i blant ac oedolion eraill. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos hunan-reolaeth dda yn enwedig mewn gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion lle maen nhw`n rhannu a chymryd eu tro. Fodd bynnag, mae ychydig o blant yn dangos ymddygiad gwael ar adegau ac mae hyn yn rhwystro cynnydd plant eraill.

Mae amserau byrbryd yn achlysuron cymdeithasol gwerth chweil pan fydd plant yn dod o hyd i'w lle a heb fawr o anogaeth yn dweud os gwelwch yn dda a diolch. Yn

ystod amser byrbryd, mae`r plant yn amyneddgar ac yn ymddwyn yn dda gan fwynhau'r byrbrydau iach sy`n cael eu darparu ar eu cyfer.

Yn ystod chwarae rhydd, mae`r plant yn gwneud dewisiadau, yn defnyddio offer yn synhwyrol ac yn ofalus.  Mae llawer o blant yn gynorthwywyr parod wrth glirio i ffwrdd, fodd bynnag, mae rhai yn fwy amharod i wneud hynny.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn darparu ystod boddhaol o weithgareddau ar gyfer y plant.  Mae`r cynllunio yn seiliedig ar ddull thematig ac yn ddigon hyblyg i ymgorffori diddordebau'r plant.  Mae digon o bwyslais ar blant yn dysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol.

Mae`r cynllunio`n darparu`r plant â chyfleoedd priodol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.  Mae amser cylch yn cael ei gynllunio i annog plant i wrando ac ymateb.  Fodd bynnag, mae gallu lleiafrif o blant i wrando yn gyfyngedig ac mae`u hymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhwystro cynnydd plant eraill.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol drwy rhoi gorchmynion a chyfarwyddiadau syml.  Er bod llawer o blant yn deall, nid ydynt yn hyderus i ddefnyddio'r iaith.  Mae`r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn canu ystod o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac mae hyn yn fuddiol wrth iddynt ddysgu`r iaith.

Mae`r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau rhifedd, fel cyfrif blant sy'n bresennol adeg cofrestru.  Mae'r plant yn adnabod siapiau syml ac mae`r cynllunio yn eu galluogi i chwilio am siapiau tebyg ar yr iard chwarae, fel cydnabod olwynion fel cylchoedd ar eu beiciau tair olwyn a ffenestri fel hirsgwar.  Nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau TGCh.

Mae llawer o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau meddwl, fel wrth gymysgu paent neu arbrofi gyda thywod a dŵr.  Mewn achosion o'r fath mae`r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau yn yr hyn y byddent yn hoffi ei wneud.

Mae gweithgareddau grwpiau bach a gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion yn cael eu cynllunio'n briodol ac mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol, fel wrth wneud cebabs ffrwythau ar gyfer eu picnic.  Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar gyflawniad blaenorol y plant ac ar adnabod y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol.  At ei gilydd, nid yw'r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio yn cyfateb yn dda â gallu`r plant ac mewn rhai achosion mae plant yn camymddwyn wrth iddynt golli diddordeb.

Mae ymweliadau â'r ardal fywyd gwyllt yn cyfoethogi profiadau plant o'r byd o'u cwmpas.  Mae cyfleoedd da i blant ddysgu am ailgylchu ac mae gwastraff bwyd yn cael ei gompostio yn rheolaidd.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy gymryd rhan mewn cyngerdd gan y Cylch.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y lleoliad arferion sydd wedi`u sefydlu`n dda i sicrhau bod plant yn teimlo bod croeso iddynt a`u bod yn ddiogel. Mae rhieni / gofalwyr a'u plant yn cael eu croesawu gan aelod o staff ar ddechrau pob sesiwn. Mae perthynas gadarnhaol rhwng ymarferwyr a phlant yn seiliedig ar hoffter o'i gilydd.

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau i ysgogi`r plant ac ar y cyfan, mae'r rhain yn llwyddo i gynnal diddordeb y plant. Fodd bynnag, pan nad yw`r gweithgareddau yn cyfateb yn dda â gallu`r plant, mae ychydig o blant yn colli diddordeb ac yn camymddwyn.

Mae`r adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n briodol i wella`r dysgu ac mae`r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau. Mewn rhai achosion, mae diffyg adnoddau, er enghraifft ar gyfer TGCh, yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y plant.

Mae pwyslais da ar ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol ac yn gyffredinol, mae`r plant yn cael eu cefnogi'n dda gan oedolion. Mae`r plant sydd wedi`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol ac yn cael eu hintegreiddio i mewn i holl weithgareddau`r dosbarth.

Mae asesu mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Mae cofnodion asesu unigol yn cael eu cynnal drwy nodiadau a ffotograffau ac mae'r rhain ar gael i rieni ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhieni yn gwerthfawrogi`r cofnod hwn. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn asesu cynnydd plant unigol yn rheolaidd ac yn gyson neu ddefnyddio cofnodion asesu yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ac ymestyn dysgu'r plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae hon yn gymuned hapus lle mae`r plant yn cael croeso, maen nhw`n ddiogel ac yn derbyn anwyldeb. Mae`r plant yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion ac mae`u barn yn cael ei barchu. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd, fel ymweliadau â'r ardal fywyd gwyllt yn annog chwilfrydedd y plant am y byd maen nhw`n byw ynddo.

Mae`r plant yn dysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir, yn ogystal â phwysigrwydd gwirionedd a gonestrwydd. Mae ymarferwyr yn arwain drwy esiampl a thrwy eu gweithredoedd yn dangos i`r plant sut i barchu a helpu ei gilydd.

Mae cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am draddodiadau a diwylliant Cymru. Maen nhw`n dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gwisgo'n briodol, samplo bwydydd traddodiadol o Gymru ac yn trefnu cyngerdd y Cylch.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i nodi plant sydd angen cymorth dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol yn eu lle ac mae`r rhieni`n cael eu hysbysu'n dda. Mae`r

staff yn darparu cymorth da o ddydd i ddydd ar gyfer y plant hyn. Mae'r plant yma`n cael eu hintegreiddio'n dda i mewn i`r holl weithgareddau.

Mae`r plant yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac ailgylchu. Mae`r plant yn cadw bwyd a chroen gwastraff ar gyfer compostio o ddydd i ddydd ac mae plentyn yn cymryd cyfrifoldeb am ychwanegu deunyddiau i'r bin compostio.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant ac yn gyffredinol mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn creu ethos cynhwysol a chyfeillgar lle mae'r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gan bob un hawl gyfartal i`r adnoddau a`r holl weithgareddau. Mae pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr i gwrdd â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae penodiad diweddar o siaradwraig Cymraeg rhugl wedi gwneud gwelliant sylweddol i ddatblygiad iaith y plant.

Mae'r lleoliad yn cynnwys ystafell yng nghefn y ganolfan gymunedol. Mae'r ystafell yn fawr ac wedi'u haddurno'n dda ac yn agor yn uniongyrchol i ardal chwarae o darmac. Mae'r ystafell yn amlbwrpas ac mae hyn yn golygu bod angen clirio'r offer o`r ystafell ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, mae`r staff yn sicrhau ei bod yn barod ar gyfer y plant ar gyfer pob sesiwn gan ymgorffori`r meysydd dysgu priodol.

Mae gan y lleoliad ddefnydd o neuadd fawr yn ystod tywydd garw. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi clirio rhan o ardal fywyd gwyllt gyfagos sy'n cael ei defnyddio ar gyfer ymweliadau a phicnic. At ei gilydd, mae'r plant yn elwa o ystod dda o gyfleusterau sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion dysgu. Mae`r adnoddau ar gyfer datblygu sgiliau TGCh y plant yn gyfyngedig.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal da ac yn derbyn sylw cyfartal. Mae'r nodau hyn yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn hawdd mynd at yr ymarferwyr a bod eu plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae aelod o staff yn cyfarch y plant wrth gyrraedd ac mae hi ar gael i siarad â rhieni / gofalwyr. O ganlyniad, mae`r berthynas â rhieni / gofalwyr yn dda ac mae ymdeimlad o gymuned yn bodoli.

Mae'r ddau ymarferydd yn rhannu rolau`r arweinyddiaeth ac mae hyn yn gweithio'n dda gan eu galluogi i gyfrannu syniadau. Mae`r cynllunio`n canolbwyntio'n gadarn ar

ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant tra'n sicrhau eu gofal a'u lles. Mae'r aelod o staff a benodwyd yn ddiweddar yn medru cyfrannu syniadau yn ogystal â siarad Cymraeg yn rhugl, ac o ganlyniad, mae hi`n aelod werthfawr o`r tîm. Mae dau aelod ychwanegol o staff yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae`u rolau wedi eu diffinio'n dda ac yn effeithiol.

Mae pwyllgor rheoli gweithredol ar waith. Maen nhw`n cyfarfod yn rheolaidd, yn cael eu hysbysu`n dda ac yn cefnogi sut mae`r lleoliad yn rhedeg.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi sut mae`r lleoliad yn rhedeg o ddydd i ddydd. Mae`r ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i gynllunio a thrafod gweithgareddau`r plant ac mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant perthnasol sydd wedi`u darparu gan yr awdurdod ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae'r cylch chwarae yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae diwylliant o hunanarfarnu a pharodrwydd i wella yn amlwg yn y lleoliad ac yn ddiweddar mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae'r gwaith sydd wedi`i wneud i sicrhau ystod dda o adnoddau i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu`r plant yn sylweddol. Mae`r adnoddau ar gyfer chwarae y tu allan yn arbennig o dda.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau`r plant ac yn ymgynghori â rhieni. Mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o gyngor ac awgrymiadau swyddog cefnogi`r awdurdod lleol a staff Mudiad Meithrin. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer gwelliant mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Nid yw`r ddogfen hunanarfarnu yn cwmpasu pob agwedd o waith y lleoliad ac nid yw`r targedau ar gyfer gwella yn cael eu blaenoriaethu ac nid yw`r meini prawf llwyddiant wedi`i nodi.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni yn ei waith ac mae hyn yn effeithio`n dda ar les a chynnydd y plant.

Mae rhieni yn cael pecyn croeso llawn gwybodaeth ac yn cael eu gwahodd i ddod gyda'u plant i'r lleoliad. Mae rhieni yn rhydd i ymweld â'r lleoliad ac i sicrhau bod eu plant yn ymgartrefu. Mae rhieni a gofalwyr yn cwrdd ag aelod o'r staff wrth iddynt ddod a chasglu eu plentyn o'r lleoliad. Mae hwn yn gyfle delfrydol i drafod unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth. Mae rhieni yn cynorthwyo i godi arian sy'n darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y plant.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gyda'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant ond nid yw`r rhain wedi eu datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o'r gefnogaeth sy`n cael ei darparu gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn effeithiol wrth wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac yn cael eu defnyddio`n effeithiol.  Mae`r arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac mae'r ddwy yn darparu syniadau ac yn cefnogi ei gilydd.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o`r hyfforddiant sy`n cael ei darparu gan yr awdurdod lleol ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ddysgu plant.  Mae`r staff yn rhannu syniadau yn dda ac yn hunan-feirniadol.  Maen nhw`n ceisio pob cyfle i ddatblygu a gwella eu harfer.

Mae`r gwariant yn cael ei gadw dan adolygiad gan y pwyllgor rheoli.

O ystyried y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a boddhad rhieni, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |